



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

ADRODDIAD BLYNYDDOL AELOD

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgarwch dros y flwyddyn fwrdeistrefol a ddaeth i ben ddiwedd mis Mawrth 2018. Caiff ei ddarparu er gwybodaeth i bob etholwr ac nid i unrhyw bwrpas arall.

Cyfarwyddiadau ar gyfer llenwi

Mae croeso i Gyngorwyr gynnwys gymaint neu cyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran, fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (fel uchafswm).

Y Cynghorydd: Phil Wynn

Plaid: Annibynnol

Ward: Brynyffynnon

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau:

Rwyf yn aelod o'r Pwyllgorau canlynol (ffigyrau presenoldeb wedi'u darparu gan CBSW):

Bwrdd Gweithredol fel Aelod Arweiniol ar gyfer Pobl - Addysg
Y Cyngor
Is-bwyllgor y Bwrdd Gweithredol (Ymddiriedolaethau Corfforaethol)
Grŵp Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol
Cydbwyllgor Ymgynghori Undebau'r Athrawon
Cydbwyllgor Ymgynghori Undebau Nad ydynt yn rhai Athrawon

Rwyf yn aelod o'r Pwyllgorau allanol canlynol (ffigyrau presenoldeb wedi'u darparu gan y Cynghorydd):

Cydbwyllgor GwE
Grŵp Llywio Addysg
Fforwm Derbyniadau Ysgolion Wrecsam
Fforwm Cyllideb Ysgolion
Cydbwyllgor Addysg Cymru
Fforwm Addysg Gymraeg
Cronfa Waddol Gymunedol Wrecsam

Cynghorydd Cymuned Offa – Cynghorydd Cymuned
Ysgol Clywedog – aelod o Gorff Llywodraethu a Chadeirydd Cyllid a'r Pwyllgor Personél
Aelod o Bwyllgorau Rheoli ar gyfer - Canolfan Gymunedol Maesgwyn a Chanolfan Gymunedol Parciau
Ymddiriedolwr ar gyfer Ysgol Woodlands.
Ymddiriedolwr ar gyfer Prosiect Warws Wrecsam.

Adran 2: Gweithgaredd yn fy Etholaeth:

Cyfathrebwyd â thrigolion y ward yn bennaf drwy ddefnyddio pamffledi, a'r prif bynciau a oedd yn pryderu'r etholwyr oedd materion cynllunio, y Cynllun Datblygu Lleol a cholli gwasanaethau bws ardal leol Bryn Offa.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig:

Rwyf wedi cydweithio'n agos â'm cyd aelodau etholiadol yn ward y dref i sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol arfaethedig yn cynnwys polisi i wella rheoli effaith Tai Amlfeddiannaeth. Mae lles canol ein tref yn gysylltiedig â barn y cyhoedd ynghylch unigolion sydd â phroblemau personol cymhleth ac sy'n ymgynnull yn y dref. Fel rhywun sy'n mynychu Grŵp Diogelu Canol y Dref, rwyf yn ffyddiog iawn bod asiantaethau cyhoeddus amrywiol nawr yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r mater gan gynnig cymorth wedi'i deilwra ar gyfer grŵp bychan o unigolion. Mae'r gwaith hwn yn sicr ar y gweill.

Adran 4: Dysgu a Datblygu a Gwblhawyd

Mae'r flwyddyn ddiwethaf i raddau helaeth wedi bod yn brysur â'm hymrwymiad llawn amser i'r rôl Aelod Arweiniol ar gyfer Addysg. Fel rhan o'm hunanddatblygiad cefais y pleser o gyfarfod â dros ddeugain o Benaethiaid ein hysgolion. I helpu ysgolion wella eu cynnig addysgol, rwyf i, ynghyd â'r Pennaeth Addysg a swyddogion GwE wedi cynnal cyfarfodydd "Bwrdd Gwella Carlam" yn rheolaidd ag uwch-dimau rheoli chwech o'n hysgolion.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Fel Aelod Arweiniol ar gyfer Addysg rwyf yn mynychu cyfarfodydd misol Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes CBSW yn rheolaidd.

Rwyf wedi caniatáu comisiynu astudiaeth ddichonoldeb i'r defnydd posibl o adeilad a safle ysgol Groves ar gyfer darparu cyfleusterau addysg i blant oed cynradd. Byddaf yn adrodd ar y mater hwn yn hwyrach yn 2018.

Fy her fwyaf hyd yma yw ceisio cael cymorth gan aelodau'r glymblaid sy'n rheoli er mwyn sicrhau bod cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i ysgolion Wrecsam ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, boed yn llai na setliad wedi'i ariannu'n llawn, ynghyd â £50,000 i ariannu gwersi cerdd ychwanegol mewn ysgolion i blant sydd â hawl i Brydau Ysgol am ddim.

Llofnod y Cynghorydd: Phil Wynn

Dyddiad: 30 Gorffennaf 2018